# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 343

Tachwedd 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# Ffiseg ysbrydoledig

Mae labordai a adnewyddwyd yn Sefydliad Mathemateg a Ffiseg (SMFf) Prifysgol Aberystwyth wedi eu henwi ar ôl Dr Tudor Jenkins, Nantmel, Bow Street, "athro ffiseg ysbrydoledig" a fu farw yn ddisymwth ym mis Tachwedd 2009.

Cafodd Labordai Tudor Jenkins eu diweddaru ar gost o fwy na £300,000 a'u hagor yn swyddogol gan Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yr Athro April McMahon, ar ddydd Llun 7 Tachwedd. Ymunodd gweddw Dr Jenkins, Mrs Susan Jenkins, a'i meibion Morgan a Meurig â'r Athro McMahon i ddadorchuddio plac i goffau'r digwyddiad. Nid oedd ei merch, Bethan, yn medru bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Wrth annerch cynulleidfa o staff a myfyrwyr o SMFf, dywedodd yr Athro McMahon: "Mae'n bleser mawr gen i agor y Labordai Tudor Jenkins newydd. Mae'n amlwg o'r nifer staff sydd wedi mynd ymlaen i weithio i'r sefydliad ar ôl astudio gyda Dr Jenkins, ei fod yn ffigwr a oedd yn ysbrydoli ac a oedd yn hollol ymroddedig i ddysgu ffiseg ar bob safon. Mae'n hollol briodol felly fod y labordai newydd yma yn arddel ei enw."

Dywedodd yr Athro Manuel Grande, Pennaeth SMFf: " Mae Labordai Tudor Jenkins yn cynnig y diweddaraf mewn technoleg ddysgu a gofod golau hyblyg sydd yn golygu ein bod yn gallu derbyn grwpiau myfyrwyr llawer mwy heb gyfaddawdu ar safon eu profiad dysgu ac addysgu. O fod wedi gwneud hyn, rwy'n siŵr y byddai Tudor yn cymeradwyo."

Ymunodd Dr Tudor Jenkins, a oedd yn wreiddiol o Dreherbert, Cwm Rhondda, ag Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth ym 1983. Daeth yn Uwch Ddarlithydd ym 1990 ac yna'n Ddarllenydd mewn Ffiseg yn 2007. Cafodd ei nodweddion ysbrydoledig fel athro eu cydnabod yn 2005 pan gyflwynwyd iddo Wobr Ragoriaeth Addysgu'r Brifysgol. Tra yn Aberystwyth sefydlodd grŵp ymchwil astudio priodweddau tra-ffilmiau tenau ar solidau a datblygodd ffyrdd newydd o astudio eiddo electronig solidau trwy ddefnyddio spectroscopi optegol.

Yn fyfyriwr israddedig bu'n astudio Ffiseg yng Ngholeg Corpus Christi, Rhydychen, lle 'roedd yn Ysgolor Agored. Yna ymunodd â Labordy Clarendon, Rhydychen, lle'r enillodd ei ddoethuriaeth D. Phil. yn yr elfennau electronig o insiwleiddio solidau o dan oruchwyliaeth Dr JW Hodby.

Wedi hyn treuliodd bedair blynedd yn gynorthwy-ydd ymchwil ôl-ddoethuriaethol ym Mhrifysgol Caerdydd, cyn cael ei benodi'n Ddarlithydd mewn micro-electroneg ym Mhrifysgol St Andrews yn 1979.

Roedd yn Gymrawd y Sefydliad Ffiseg (IoP) a derbyniodd Fedal Cadeirydd Canghennau yr IoP am ei wasanaethau i Ffiseg yng Nghymru yn 2003. Roedd hefyd yn gyfarwydd ym myd cerddorol yr ardal fel chwaraeydd Tiwba.



Chwith i'r Dde: Yr Athro Manuel Grande, yr Athro April McMahon, Mrs Susan Jenkins, Morgan Jenkins a Meurig Jenkins yn dilyn dadorchuddio'r plac i goffau Dr Tudor Jenkins.




## Da iawn Karen

Nos Iau 17eg o Dachwedd ym Mharc y Scarlets cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu Seremoni Wobrwyo a chydnabod staff. Roedd y digwyddiad arbennig hwn yn cydnabod ac yn dathlu'r ymdrechion eithriadol a wna staff a phobl eraill yn feunyddiol i wneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel i fyw, i weithio ac i ymweld â nhw.

Lluniwyd deg gwobr arbennig a derbyniwyd dros 160 o enwebiadau o ansawdd uchel ond yn fuddugol ar y noson ac yn derbyn Gwobr Llwyddiant Cymunedol a noddir gan Lion International oedd Uned Wirfoddol y Borth a Chyfeillion y Borth am eu gwasanaeth i'r cyhoedd a thrwy godi arian i adeiladu gorsaf newydd tra ar yr un pryd yn cadw swyddi llawn amser. Derbyniodd Karen Rees Roberts (gynt o Benrhyn-doch) Wobr Llwyddiant Unigol, a noddir gan Beacons Construction & Maintenance, am berfformio'n gyson tu hwnt i ddisgwyliadau trwy gydol y flwyddyn.

Llongyfarchiadau mawr Karen!

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 343 | Tachwedd 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **RHAGFYR 1** a **RHAGFYR 2** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **RHAGFYR 15**

**TACHWEDD 25** Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch am 7.00

**TACHWEDD 25** Nos Wener Cyngerdd gan Gôr Bro Meirion (Iwan Parry, Bas) yn Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen am 7.30 Tocyn: £10

**TACHWEDD 25** Nos Wener 'Agweddau ar hanes gogledd Ceredigion', Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**TACHWEDD 26** Bore Sadwrn Bore Coffi yng Nghapel y Garn rhwng 10 a 12 o'r gloch.

**TACHWEDD 26** Nos Sadwrn Cwmni Martyn Geraint a Theatrau Rhondda Cynon Taf yn cyflwyno ' Jac a'r goeden ffa' yng Nghanolfan y Celfyddydau am 5.00

**TACHWEDD 26** Nos Sadwrn Noson o ganu gwlad yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Er budd Ffagl Gobaith. Mynediad drwy docyn £10 ar gael o'r Gwesty (636333), Siop Ffagl Gobaith neu Megan Jones (612768)

**TACHWEDD 26** Nos Sadwrn Côr ABC yn cyflwyno 'Aberystwyth' gwaith comisiwn gan Héctor Mac Donald: Unawdwyr: Helen Medi Williams / Barry Powell ym Morlan am 7.30. Tocynnau £12 (yn cynnwys gwydraid o win a mins pei) ar gael o Siop y Pethe, Aberystwyth, trwy ebostio corabc10@gmail.com neu drwy ffonio 07530 513196, Elw'r noson at: Ymchwil Canser Cymru (Canser y Fron) a Chymdeithas Cymru-Ariannin (i ddarparu a hyrwyddo addysg Gymraeg yn y Wladfa)

**TACHWEDD 28** Nos Lun Plaid Cymru, Cangen Bro Dafydd. Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30pm. Dr Owen Roberts yn rhoi sgwrs am etholiadau diweddar.

**TACHWEDD 29** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno 'C'mon Mid-laiff' gan Bryn Fôn yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.30 Tocynnau: 623232

**RHAGFYR 1** Nos Iau Parti Body Shop yn nhafarn y Rhydypennau am 7.30 p.m., er budd Cylch Meithrin Rhydypennau. Mynediad am ddim a chroeso i bawb. Cyfle da i ddechrau ar y siopa Dolig a rhoi help llaw i'r Cylch ar yr un pryd.

**RHAGFYR 2** Nos Wener Noson Nadoligaidd ym Methlehem Llandre am 6.30

**RHAGFYR 2** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr ac Adloniant i ddilyn gan Triawd Bro Ddyfi yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 7 — 8.00

**RHAGFYR 2** Nos Wener Cyngerdd Nadolig Côr Ger-y-lli yn Eglwys Llanbadarn Fawr am 7.30. Tocynnau - Oedolion £5.00 Plant £3.00 ar werth o T. J. Davies, Siop Inc gerylli@gmail.com ac wrth y drws.

**RHAGFYR 3** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion ym Morlan: cinio Nadolig yn y Marine gyda Jonathan Edwards AS

**RHAGFYR 8** Nos Iau Cymanfa garolau yn Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth, am 7.00 dan nawdd Ffagl Gobaith. Casgliad ar y noson

**RHAGFYR 9** Nos Wener Gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys Elerch, Bont-goch am 7.00. Casgliad tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

**RHAGFYR 15** Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn am 7.30.

**RHAGFYR 16** Nos Wener — 'Dathlu'r Nadolig', yng ngofal Alan Wynne Jones, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**RHAGFYR 19** Nos Lun Gyrfa chwist dofednod yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch

**RHAGFYR 21** Nos Fercher Parti Nadolig Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhydypennau yn yr ysgol, 6.30 - 8.

**Oedfa Arbennig yng Nghwmni Dafydd Iwan**

Ar brynhawn Sul, 11eg o Ragfyr am 2 o'r gloch cynhelir Oedfa Arbennig i Blant ac Ieuenctid yng Nghanolfan y Morlan yng nghwmni Dafydd Iwan. Croeso cynnes i bawb. Trefnir yr oedfa dan nawdd Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Hydref**

£25 (Rhif 53) Elwyn Ioan, 11 Ffordd Y Drindod, Aberystwyth
£15 (Rhif 85) Anwen Pierce, 46 Bryn Castell, Bow Street.
£10 (Rhif104) Parchedig Judith Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddigol gan Eleri Roberts yn dilyn ymarfer Côr Cantre'r Gwaelod nos Sul 23ain o Hydref 2011.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Bryn Meillion, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010/11 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

## Y Tincer trwy'r post

**Pris 10 rhifyn** - £14 (£25 i wlad y tu allan i Ewrop).
Cysylltwch â'r Trysorydd - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth, SY24 5NX
☎ 01970 820652 hedyddcunnigham@live.co.uk

## 20 Mlynedd 'Nôl



Aelodau gweithgar Pwyllgor Carnifal y Borth: o'r chwith i'r dde: Yvette Ellis, Sara Williams, Gill Parry (Ysg.,), Rhian Williams, ac yn dal y siec enfawr mae Una Lloyd Davies (Cadeirydd). Llun: Arvid Parry Jones (o'r *Tincer* Tachwedd 19991)

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## MADOG

### Suliau Madog

2.00
*Tachwedd*
**27** M J Morris
*Rhagfyr*
**4** Bugail
**11**
**18** Tecwyn Jones
**25** Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch Capel Madog ar nos Fawrth 4ydd o Hydref. Croesawyd pawb yn gynnes i'r oedfa gan ein gweinidog, y Parchg Wyn Morris. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Elwyn Pryse a chafwyd pregeth amserol iawn ganddo. Yr organydd oedd Angharad Rowlands. Addurnwyd y Capel yn hardd gan Margaret Edwards a Margaret Hughes.

### Marathon

Bu Anwen Hughes, Lluest Fawr yn rhedeg ras hanner marathon yng Nghaerdydd yn ystod mis Hydref. Llwyddodd i gwblhau'r ras a chodi £350 tuag at Ymchwil Canser. Llongyfarchiadau mawr i ti Anwen.

## DOLAU

### Penodiad

Llongyfarchiadau i Dr Huw Lloyd Williams a benodwyd yn un o chwe darlithydd cyfrwng Cymraeg newydd gan Brifysgol Aberystwyth o dan nawdd Cynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn frodor o Dolau, addysgwyd Huw yn Aberystwyth cyn mynychu'r London School of Economics (LSE) yn fyfyriwr israddedig. Wedi cyfnod o weithio gyda Bwrdd yr Iaith a byw ym Madrid, dychwelodd i'r brifysgol i astudio athroniaeth wleidyddol fel ysgolor Morrell yn Efrog. Yn fuan wedyn dechreuodd ar ei radd ddoethur yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth. Wedi iddo raddio yn 2009, cyfrannodd at waith dysgu'r adran, ac ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd ei lyfr cyntaf gyda'r wasg Palgrave MacMillan, o dan y teitl *On Rawls, Development and Global Justice: The Freedom of Peoples.* Mae'r gyfrol yn cyfuno ei ddiddordebau ymchwil ym meysydd athroniaeth wleidyddol, damcaniaeth gwleidyddiaeth ryngwladol, a datblygiad yn y trydydd byd. Dymuniadau gorau iddo ar ei swydd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Ger-y-Nant ar ôl marwolaeth sydyn tad Delyth yn ddiweddar.

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

ytincer@googlemail.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

# Y BORTH

### Clwb 300 Clwb Pêl-droed y Borth

1af- Dr. Ian Hosker,Y Borth.
2il- Dion Ellis Clark, Rock Villa, Y Borth
3ydd -Rosie Heath, Sandicott, Y Borth
4ydd-Ffion, Tafarn y Railway, Y Borth.
5ed- Gareth Davies, Llanbadarn.
6ed- Ian Pugh, Tregerddan, Bow St.

### Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Grady Hassan, Westward, Ynys-las ar ennill, nid yn unig cystadleuaeth Cerddor Ifanc Offerynnol Rotary Aberystwyth, ond hefyd cystadleuaeth Ardal 1 Rotary sef Ceredigion a Dwyrain Caerfyrddin. Bydd Grady yn awr yn cynrychioli Ardal 1 yn rownd De Cymru a gynhelir yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru Caerdydd ar ddydd Sadwrn 21 Ionawr 2012.



### Ffair Elusennau

Cynhelir ffair flynyddol Nadoligaidd Elusennau'r Borth ar ddydd Sadwrn y 4ydd o Rhagfyr am 10.00 yn y Neuadd Gymunedol. Croeso i bawb! Bydd Siôn Corn yno!

### Eglwys Sant Matthew

Perfformir Drama'r Geni yn yr Eglwys gan blant yr Ysgol Sul am 11.15 y.b. ar Ragfyr 18fed.Estynnir croeso mawr i bawb er mwyn cefnogi'r plant.

Dydd Mercher 18fed Rhagfyr am 6.30 bydd Carolau a mins peis yn Neuadd Gymunedol y pentre.

Sadwrn 24ain Rhagfyr-11.30 y.h. Cymundeb.
Sul 25ain Rhagfyr — 10.30 Bore Dydd Nadolig - Cymundeb
Sul Ionawr 1af 2012 -11.15 y. b. Cymun Sanctaidd y flwyddyn Newydd.
Croeso cynnes i bawb
Y Ficer Y Parchg. Cecilia Charles - 871 889

### Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r cylch

Cafwyd cychwyn ardderchog i'r tymor newydd nos Fercher, 12 Hydref, 2011.
Am y tro cyntaf ers cychwyn y Gymdeithas ni fu'n rhaid i ni ymlwybro i lawr i Festri Capel y Gerlan, ond yn hytrach cawsom gartref newydd clyd yn Neuadd y Borth.
Etholwyd Swyddogion am y flwyddyn sef, Llywydd — John M. Hughes; Is-lywydd — Margaret Griffiths; Trysorydd — David S. Evans; Ysgrifennydd — Llinos Evans.

Fel arfer noson yng ngofal y Llywydd yw noson gynta'r tymor a chawsom ein diddanu'n ddifyr iawn gan John wrth iddo ein tywys drwy hen Siroedd y Gogledd o — Fôn i Faldwyn, gan adrodd ambell hanesyn am hwn a'r llall a'r llefydd o bwys yn yr hen siroedd hyn.

Braf oedd cael croesawu aelodau newydd atom ac edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd, pryd y bydd Alun Williams o Gomins-coch yn sôn wrthym am 'Ochr Arall y Geiniog' ac yna ar 14 Rhagfyr bydd Rheinallt Llwyd yn ein hudo i'r Mynydd Bach.



Croeso i Florence Awela,chwaer i Toohey a Elfie,(Richmond ) trydedd merch i Sadie a Paul. Ganwyd hi ar Hydref y 5ed (7 pwys 7 owns). Mae hi'n un o 'Fabis Mis Hydref' sioe Caryl a Dafydd ar Radio Cymru! Dyma hi gyda'i dwy chwaer fawr!




Daethpwyd o hyd i'r poster uchod yn Amgueddfa Ceredigion yn ddiweddar-oes gan unrhyw un atgofion o'r fath ddigwyddiad yn y Borth? Byddai'n dda cael gwybod. Ffoniwch 871334 !

# ARTIST Y MIS

**Enw**- Ann Ferris, 'Oriel Adrift'.
**Pam byw yn y Borth?** Oherwydd cariad; cariad at y bobl a'r lle.Treuliais y rhan fwyaf o'm bywyd yn Ne Cymru a pan oeddwn yn byw ym Mhen-y-bont cwrddais â Les a Lizzie Edwards, Grace a Ruth- rhagflas o'r hyn oedd i ddod! Aeth pymtheng mlynedd heibio cyn i fi symud yma, un o'r pethau gore wnes i erioed.
**Hyfforddiant?** Dechreuais gwrs ym Mhrifysgol Nottingham yn astudio Ffrangeg a Materion Rhyngwladol yna newid cyfeiriad yn llwyr a mynd i Brifysgol Morgannwg i astudio Crochenwaith. Bum yn ffodus i gael gradd dosbath 1af, a'r prif reswm am hyn oedd fy mod yn dwlu am y pwnc ac yn dal i deimlo felly.
**Dylanwadau?** Pennaeth yr adran ym Morgannwg, Frances Woodley-menwy frawychus ond fe roddodd hyder i fi ac agor drysau ar yr hyn o dalent oedd gennyf.Hefyd Claire Curneen o Gaerdydd , mae ei thriniaeth hi o glai yn rhyfeddol, a Lucy Rie-arist a hyfforddwyd gan Leach ond a dorrodd ei chwys ei hunan.
Mae cymaint o ddylanwadau eraill o arlunwyr mawr y Dadeni i Frieda Kahlo.
**O blith eich gwaith, pa un yw eich ffefryn?**Cerflun bach, bach o fenyw hapus a'i breichiau ar lêd ar ben tŵr uchel main, hir o hen goed broc môr y Borth.Mae'n dweud rhywbeth i mi am ein perthynas ni â Natur.
**A'r dyfodol?** Gwerthu fy ngwaith yn Oriel Adrift, parhau i fod yn fyfyriwr a defnyddio fy ffydd Bwdiaidd fel cyfrwng Celf.



# LLANDRE

### Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Nos Lun, 17 Hydref teithiodd 19 o'r aelodau i'r Borth i ymweld â'r Amgueddfa sydd wedi ei chreu yn yr Orsaf. Amgueddfa o hen elfennau yn ymwneud â'r Rheilffordd sydd yma a cheir cyfle i edrych ar ffilm fer o hanes y Borth o'r gorffennol hyd at heddiw. Er nad oedd yn noson braf cawsom groeso cynnes gan John a Gwenllian a diolch o galon iddynt am eu parodrwydd i agor yr Amgueddfa ar ein cyfer. Aethpwyd oddi yno i Oriel Tir a Môr i gael paned a chacen gyda Grug a Peter ac roedd y croeso a'r cynhesrwydd yma eto yr un mor dderbyniol ar y fath noson stormus. Diolch yn fawr iddynt wythau hefyd.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Delor a Graham Harvey a'r merched, Lôn Glanfred, ar farwolaeth tad Delor yn ddiweddar.

### Treftadaeth Llandre

Tachwedd 24 —
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cyflwyniadau bychain am hanes lleol a bywyd gwyllt. Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 yh.

### Bardd ifanc

Llongyfarchiadau i Dylan Huw Edwards, Bancyreithin, Llandre, am ennill Tlws Barddas 2011 a gwobr ariannol am y gerdd orau gan ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymru. Bydd y Tlws a gwobr ariannol yn cael eu cyflwyno iddo yn Ysgol Penweddig cyn bo hir.

### Teyrnged

Mae darlun olew sy'n deyrnged i Dr Dafydd Huws, Mynydd Gorddu a Chaerffili, o waith Wynne Melville Jones yn cael ei arddangos yn y Morlan Aberystwyth gydol mis Tachwedd.

Hefyd ymwelwch â'r oriel newydd sbon www.orielwynmel.co.uk




### Eglwys Llanfihangel Genau'r –glyn

Mae Calendr 2012 yr Eglwys ar gael. Os hoffech gopi cysylltwch â Betty Williams, rhif ffôn: 01970 828335.

Os oes gennych ddiddordeb yn y llyfrau isod :
Gweithiau Bunyan
Geiriadur Charles
War memories of David Lloyd George Vol 1 & 2
Cysylltwch â Betty Williams - rhif ffôn: 01970 828335.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad a Daniel, Llain Wen, Lon Glanfred, ar farwolaeth ei fam yn Llangeitho yn ddiweddar.

### Bethlehem Llandre

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem ar nos Wener, Tachwedd y 4ydd, pryd daeth Miss Beti Griffiths Llanilar i wasanaethu. Ar ôl i'r gweinidog, y Parchg Wyn Morris, agor yr oedfa, cafwyd anerchiad perthnasol iawn gan Miss Griffiths yn seiliedig ar yr adnod "Pan fyddi wedi medi dy gynhaeaf ond wedi anghofio ysgub yn y maes, paid â throi'n ôl i'w chyrchu; gad hi yno ar gyfer y dieithryn, yr amddifad, a'r weddw..." o lyfr Deuteronomium. Gaenor Hall oedd wrth yr organ ac fe ganwyd emyn o waith Beti Griffiths yn ystod y gwasanaeth. Cafwyd cwpaned a chacen a chyfle i gymdeithasu wedyn, diolch i Lena Davies a Gwenda James.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693;
e-bost : mairllo@hotmail.co.uk .



Rhian, gweddw Dr Dafydd Huws, a'i merch Elen a'r fferm Mynydd Gorddu, Bont-goch gyda Wynne Melville Jones a fu'n gyfrifol am greu y darlun sy'n deyrnged i gofio am gyfraniad enfawr Dafydd Huws i Gymru ac i'r amgylchedd. Gellir gweld y darlun gwreiddiol yng Nghanolfan y Morlan Aberystwyth gydol mis Tachwedd.

## NOSON NADOLIGAIDD

**Mins peis, diodydd tymhorol, stondinau, Sion Corn, tombola a lot mwy**

**Bethlehem, Llandre**

**Nos Wener Rhagfyr 2**

**am 6.30**

**Gwestai**:
Y Cynghorydd Ray Quant

Dewch o bedwar ban bro'r Tincer i fwynhau dathliadau'r Nadolig gyda'n gilydd

**Mynediad £2**

Defnyddir yr elw i gefnogi gweithgareddau cymunedol a Bâd Achub yr RNLI
Un o weithgareddau Banc Bro, Llandre, Dol-y-bont a'r Borth


MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.


# GOGINAN

### Dyffryn

Nos Wener 7fed o Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch am y cynhaeaf. Cafwyd Oedfa fendithiol dan arweiniad Mrs Iola Alban, Llanilar, a phregeth amserol ganddi. Braf oedd cael cwmni nifer o ffrindiau o ardaloedd cyfagos.

### Gwellhad buan

Treuliodd Mrs Eirlys Davies, Brynmeillion, rai dyddiau yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin yn ddiweddar, ond da yw medru dweud ei bod adref erbyn hyn ac yn teimlo yn well. Dymunwn iddi wellhad llwyr a buan. Dymunwn hefyd i eraill o'r ardal sydd efallai ddim wedi bod yn teimlo'n hwylus.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Ceredig James, Tynpwll gynt, ar ei briodas i Hazel yn Llan-non yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn y dyfodol.



Rhai o'r ardal yn dathlu Calan Gaeaf yn y Druid ar Nos Sadwrn Hydref 29.


**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

# PENRHYN-COCH

### Suliau Horeb

Gweler hefyd http://www.trefeurig.org/index.php

*Rhagfyr*

4 2.30 Gwasanaeth cymun Gweinidog
11 10.30 Oedfa y garol a'r Gair Gweinidog
18 2.30 Oedfa Nadolig Gweinidog
25 8.00 Cymun bore'r Nadolig Gweinidog

*Ionawr*

1 2.30 Oedfa gymun gynta'r flwyddyn Gweinidog

**Salem**

*Rhagfyr*

18 2pm Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb
24 5.30pm Bethel, Tal-y-bont — Gwasanaeth y Plant
25 10am Y Nadolig, Bethel, Tal-y-bont, Y Parchg Richard H Lewis

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dydd Mercher 14 Rhagfyr . Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Cynhaliwyd Swper y Trempyn yn neuadd Eglwys Sant Ioan ar nos Wener Hydref 14eg, ble cafwyd adloniant gan Dafydd Jones Gwnnws, Ystrad Meurig a Mrs Neli Jones yn cyfeilio iddo. Bu Meilir Pryse



o Aberystwyth yn llefaru, a chafwyd tri darn ganddo, y llon ar leddf. Beirniadwyd y person gorau i edrych fel trempyn gan y gwesteion, y wobr gyntaf i Job Mc Gauly a'r ail i Edwina Davies. Noson hwyliog a chymdeithasol.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â theulu a chysylltiadau y ddiweddar Olwen Rees, Ger-y-llan. Cymeriad hoffus dros ben.

Hefyd ein cydymdeimlad â Gwenan a Richard Davies ar golli chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar.

### Pen blwydd arbennig

Dymuna John a Dolly Davies, Bryntirion ddiolch i bawb am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur eu pen blwyddi yn 80 oed. Diolch yn fawr.



Sandra Beechey a'r Parchg Judith Morris yn cyflwyno siec elw Barbeciw Horeb a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf i Elaine Evans, Rheolwraig Tregerddan a rhai o drigolion y cartref.

### Diolch

Dymuna Henry Thomas, Cwm Felin ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei ben blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, Hydref 13eg aed am drip hwyr i ymweld â Chanolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth, lle cafwyd croeso arbennig gan Henry Evans sydd dros ei naw deg. Gŵr sydd â diddordeb gref yn achos Canolfan Owain Glyndŵr ac yn ymladd yn galed i'w chadw i fynd. Cafwyd ganddo yr holl hanes. Diolchwyd yn fawr iawn iddo gan ein Llywydd, Judith Morris. Yna aed i'r Llew Du yn Nerwen-las i ddiweddu'r noson a chael mwynhau swper blasus dros ben. Diolchwyd eto gan ein Llywydd ac fe aeth pawb tua thre wedi mwynhau noson wych.

Nos Iau, 10fed o Hydref croesawyd pawb i'r cyfarfod a gwnaed y

### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones , Ysgrifennydd yr Eisteddfod, a gynhelir ar 20-21 Ebrill 2012 mai y llywyddion fydd:
Nos Wener: Sara Evans, Bryn-coch, Castell-nedd
Nawn Sadwrn: Mary Thomas, Llys Myrddin, Penrhyn-coch
Nos Sadwrn: T. Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Dorothy Jones, Llan-gwm a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd neu e-bost i'r Is-Ysgrifennydd cyn 2 Ebrill.

| | |
|---|---|
| 1. Cystadleuaeth y Gadair: Llwybrau | Cadair a £50.00 |
| 2. Telyneg: Gwawr | £10.00 |
| 3. Englyn digri : Methu cysgu | £10.00 |
| 4. Stori fer - Agored | £10.00 |
| 5. Brawddeg o'r gair: CYMWYNAS | £10.00 |
| 6. Soned: Yr Hen Ysgol | £10.00 |
| 7. Erthygl i gylchgrawn: 'Melinau gwynt' | 1. £10.00 |
| neu 'Tŷ ni yn y bore' | 2. £5.00 |
| 8. Adolygiad o nofel Manon Rhys enillodd y Fedal Ryddiaith eleni: *Neb ond ni* (Gwasg Gomer) | £10.00 |
| 9. Limrig: Mae merched yr ardal yn slimio<br>Bob dydd maent yn loncian neu nofio<br>"Hold on", meddai .... | £10.00 |
| 10 Tlws yr Ifanc (dan 21 oed)<br>Portread : aelod o'r teulu | Tlws yr Ifanc a £25.00 |

### Cantorion lwcus!

Llongyfarchiadau i Zoe Evans a Sion Wyn Hurford sydd wedi cael eu dewis i fod yng nghôr Only Kids Aloud ar gyfer perfformiad gyda'r cwmni byd enwog Theater Mariinsky lawr yng Nghanolfan y Mileniwm Caerdydd ar Ebrill 1af. . Roedd dros 300 o blant wedi cael cyfweliad dros Gymru felly gwnaeth y ddau yn dda i gael eu dewis. Mae Only Kids Aloud yn fudiad sy'n cael ei redeg gan Only Men Aloud. Pob lwc i chi eich dau



busnes arferol, yna fe aed ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd, sef Dafydd Evans, Bethlem, Caerfyrddin. Bu yn sôn am yr ymennydd rhyfeddol hwn drwy roi gwybodaeth sut mae'r ymennydd yn cael effaith ar wahanol bobl - er enghraifft, rhywun sydd wedi cael strôc ac yn y blaen. Noson a fu yn agoriad llygaid i bawb ohonom ond ar yr un pryd yn rhoi gwybodaeth arbennig i'r rheini sydd yn diodde' o unrhyw beth i wneud â'r ymennydd. Roedd chwaer Dafydd Evans wedi ymuno gennym ar y noson hefyd, sef Meinir o Bont-goch - plant i'r diweddar Gwynfor Evans, ac yr oedd yn anrhydedd eu croesawu atom. Diolchwyd gan Glenys Morgan ac yna cafwyd cwpanaid a sgwrs i ddiweddu'r noson a thynnu'r raffl fisol. Noson ddiddorol dros ben.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Ashley Stephens, 10 Glan Seilo, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

Gwellhad buan i Connie Evans sydd wedi bod yn anhwylus eto.

Mae llawer o'r pentre wedi bod yn achwyn yn ddiweddar, gobeithio y byddwch bawb yn gwella'n fuan.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sara Evans (Refail Fach) ac Illtud, Bryn-coch, Castell-nedd, ar enedigaeth mab - Caio Brychan- ar Hydref 18fed.

## Neuadd y Penrhyn

Braf yw cael adrodd bod gwelliannau mawr ar y gweill i Neuadd y Penrhyn. Fel y gŵyr darllenwyr Y Tincer mae angen buddsoddiad sylweddol ar yr adeilad i sicrhau bod yr adnodd pwysig yma ar gael i drigolion lleol am flynyddoedd i ddod.

Bydd y gwaith yn dechrau yn gynnar ym mis Ionawr ac yn cynnwys darparu to newydd, ffenestri a drysau newydd, tarmacio y maes parcio a pheintio waliau allanol yr adeilad. Yn ogystal bydd estyniad newydd yn cael ei godi a fydd yn cynnwys toiledau a chegin newydd.

Mae`r gwaith yma yn bosib yn dilyn llwyddiant Pwyllgor Y Neuadd yn denu grantiau o Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion. Mae`r Pwyllgor ei hun hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y prosiect.

Os oes unrhyw un angen mwy o wybodaeth ar y cynlluniau mae croeso iddynt gysylltu â Brian Thomas, rheolwr y prosiect ar 828193



# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau 27 Hydref o dan gadeiryddiaeth y Gynghorwraig Heulwen Morgan. Dywedodd y Cynghorydd Sir, Paul Hinge, fod rhybuddion cyhoeddus parthed uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen wedi ymddangos yn y wasg leol yr wythnos hon, a disgwylir i'r gwaith gychwyn ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc a'r Gadeiryddes o gyfarfod ymgynghorol Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd yn ddiweddar. Dywedwyd gan y swyddogion cynllunio ei bod yn bosibl codi tai yn ardal Bow Street ar hyn o bryd cyn belled na fydd dŵr glaw o'r toeon yn dirwyn i'r un bibell a'r garthffosiaeth. Doedd dim gwybodaeth ar gael am ddatblygu llwybr o Rydypennau i gyffiniau'r Fagwyr (A487). Doedd gan y Cyngor ddim cynllun pendant parthed cyflenwi grit gaeaf yn yr ardal dim ond cymell uno gyda chynghorau eraill i brynu llwyth.

Cafwyd adroddiad o Gynhadledd Un Llais Cymru. Y pwyslais a fynegwyd yno oedd ar warchod yr amgylchedd, a pharatoi at gymryd drosodd mwy o waith y Cyngor Sir. Dim un o'r cymhellion o fudd i'r cymunedau, rhywbeth y dylai Un Llais Cymru fod yn brwydro yn ei erbyn er ein lles yw'r ail fater.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth bwyllgor Neuadd Rhydypennau yn mynegi bod y toiledau ar agor yn ystod mis Awst, yn groes i'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor yn eu cyfarfod diwethaf. Dywedwyd hefyd bod cynllun paentio a thwtio'r toiledau ar droed. Derbyniwyd sylwadau a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir a oedd modd cael arwyddion gwell i'w gosod yno, byddai hynny efallai yn lleddfu peth o'r camddealltwriaeth.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cynghorydd Hinge ei fod wedi siarad â'r Heddlu yn dilyn nifer o gwynion dros yr haf yn yr ardal, ac eisoes gwelwyd gwell plismona o gwmpas y pentref, er eu bod yn eistedd mewn cerbydau. Cadarnhaodd mai'r ffordd orau ymlaen gyda chynllun gorsaf rheilffordd yn Bow Street fyddai cyd-weithio gyda thrigolion Carno ym Mhowys. Dywedodd ei fod hefyd yn cefnogi cynllun newydd gan y Cyngor Sir i bobl ifanc lleol fedru cael cartrefi eu hunain.

Cynllunio. Mae'r cais am godi annedd ar Blot 5 Caergywydd wedi ei ganiatáu cyn belled fod dŵr glaw yn dirwyn ymaith i'w suddo yn y ddaear. Doedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i estyniadau yn rhif 8 Bryncastell, nac i estyniad a newidiadau yng nghefn Lahai-roi yn y Lôn Groes.

Penderfynwyd cyfrannu £200 tuag at Noson Tân Gwyllt 2011 a drefnir gan Glwb Pêl Droed Bow Street. Datganodd y Cynghorydd Vernon Jones ei ddiddordeb yn y cais, ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

O ddeall fod baner y ddraig goch ger Afallen Deg wedi diraenu unwaith eto, penderfynwyd archebu un o well ansawdd erbyn y gwanwyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 24 Tachwedd.

ytincer@googlemail.com

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

**COFIWCH GYSYLLTU**
ytincer@googlemail.com

**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

# BOW STREET

### Suliau Tach – Rhag

**Capel y Garn**
Gweler http://www.capelygarn.org/
10 a 5

*Tachwedd*
27 M J Morris Huw Roderick
*Rhagfyr*
4 Richard Lewis Judith Morris
11 Oedfa Nadolig y Plant
18 Tecwyn Jones Bugail
25 Oedfa'r Ofalaeth

**Noddfa**
*Tachwedd*
27 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30
*Rhagfyr*
4 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Y Garn yn Noddfa. Cymundeb
11 Oedfa am 2.00. Gwasanaeth Nadolig
**Noddfa**
18 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30 Oedfa Nadolig Ysgol Sul am 5.00
24 Oedfa Noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr
25 Uno yn Y Garn ar gyfer Oedfa Bore'r Nadolig
*Ionawr*
1 Uno yn Y Garn am 10.00

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Anna Finnigan, 45 Bryncastell, sydd wedi bod yn anhwylus yn ystod mis Hydref ac sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ein gwraig wadd nos Lun Hydref y 10fed oedd Claire Morris. Mae Claire yn rhedeg busnes "Harddwch Pecyn Pert" yn y siop "Lliw Haul" yn Stryd y Porth Bach (Eastgate) . Mae pob math o driniaethau harddwch ar gael ganddi fel cwyro, lliwio aelau , triniaeth traed a dwylo a choluro. sefydlwyd y busnes ddwy flynedd yn ôl.

Coluro oedd ei phwnc yn ein noson ni. Mae'n defnyddio colur Jane Iredale, o America, sy'n golur iachus ym mhob sôn. Cafodd dwy aelod weddnewidiad ganddi sef Liz a Mair ac roedd y ddwy yn hapus efo'r canlyniadau. Diolchwyd iddi gan Mair ein llywydd. Cafwyd paned i gloi dan ofal Beryl a Gaenor ac enillwyd y raffl gan Beryl.



Lois Dafydd. Maes Afallen, yn cael ei llongyfarch gan Jim Parc Nest, Archdderwydd Cymru, ar ôl cael ei derbyn i Orsedd y Wladfa gan Lywydd Gorsedd y Wladfa, Ivonne Maes Llaned, fel anrhydedd am ei gwaith gyda Menter Iaith Patagonia. Ei henw yng ngorsedd yw Lois Tŷ Glas.

### Dychwelyd i Fryncastell

Croeso adref i Llŷr Cameron, sydd wedi dychwelyd o Adeilade i Fryncastell am gyfnod. Mae Llŷr wedi dod â'r teulu gydag ef, sef ei wraig Alice, a'r plant Rhys (3 oed) a Phoebe (15 mis). Diddorol yw clywed bod Rhys, a fydd yn bedair oed ym mis Rhagfyr, yn mynychu'r dosbarth meithrin yn Ysgol Rhydypennau ar hyn o bryd ac yn brysur yn dysgu siarad Cymraeg yng nghwmni'r plant eraill. Hefyd, dymuniadau gorau am wellhad buan i mam Llŷr, sef Ogwen Cameron, ar ôl cyfnod o salwch. Mae'n siwr bod cael cwmni'r teulu yn gymorth mawr iddi.



### John Hefin Elias

Roedd yn chwith gan ei gyfeillion yn Bow Street a mannau eraill glywed am farwolaeth Hefin ddechrau Hydref yn ei gartref yng Nghilygorwel, ( enw cartref Isfoel, brawd Esther ei fam-gu) Caerdydd, a chydymemlir â'i briod Ceinwen; ei blant, Sioned, Bethan, Aled a'u teuluoedd; a'i frodyr Gerwyn, Dyfed, Elwyn, a'i chwaer Dilys. Roedd Hefin yr un oed â mi a 'phobol ddwad' i'r pentref oeddym. Daeth Rachel Anne (Ray) ac Illtyd a'r plant i Dŷ'r Ardd, Gogerddan ac yna i Lynrhosyn ger capel Noddfa lle buont yn aelodau gweithgar, a lle cartrefwyd am flynyddoedd cyn symud i Waunfawr. Roedd brawd Ray, Elfan gyda nhw ar yr aelwyd a brawd arall oedd y Capten Jac Alun. Un o'r chwiorydd oedd Magi, gwraig T.Llew Jones, a mam Emyr a Iolo.

Roedd Hefin a minnau gyda'n gilydd yn Ysgol Ardwyn ac yn fuan dangosodd ei allu fel pêl-droediwr medrus fel Dyfed (chwaraeodd i dîm ieuenctid Cymru ac Aston Villa) ac Elwyn. Bu'r tri brawd yn chwarae i Glwb Tref Aberystwyth. Bu Hefin yn gapten ar dîm Trefeurig am ddau dymor a chafodd ei ddewis i chwarae dros Gynghrair Aberystwyth yn erbyn Cynghrair Arfordir y Cambria mewn gêm brawf ryngwladol yn y Bermo ar 3 Ionawr 1953, gan sgorio'r gyntaf o ddwy gôl a enillodd y gêm o 2-1. Bu hefyd yn gapten tîm ieuenctid Aberystwyth a gyrhaeddodd rownd derfynol y cwpan ym 1953. Cynhwysodd Richard E. Huws ei hanes a lluniau ohono yn ei

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch (01970) 820924

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

lyfr difyr am Caneris Melyn Trefeurig.

I'r 'London School of Economics' yr aeth Hefin o Ardwyn gan raddio yn Bsc ym 1956. Ond wedi cael troedigaeth wrth wrando ar y Dr. Martyn Lloyd-Jones yn pregethu o'i bulpud yng Nghapel Westminster, cynigiodd ei hun fel ymgeisydd am y weinidogaeth. Graddiodd yn B.D. yng Ngholeg Bala-Bangor, a Choleg Mansfield, Rhydychen, lle parhaodd yn fyfyriwr ymchwil cyn ei ordeinio'n weinidog yn y Tabernacl Newydd, Port Talbot. Chwaraeodd bêl-droed i dîm yr LSE, bu'n gapten tîm Bala-Bangor, ac yng nghyfnod Rhydychen chwaraeodd i dîm Coleg St. Catherine.

Ar ôl dwy flynedd ym Mhorth Talbot treuliodd Hefin ei ddyddiau gwaith nes ymddeol yn 2002 fel uwch ddarlithydd mewn astudiaethau crefyddol ym Mholitechnig Cymru, Pontypridd. Bu'n weithgar iawn fel aelod o Fudiad Efengylaidd Cymru gan wasanaethu eglwysi'r Mudiad. Yng Nghapel Efengylaidd Highfields, Caerdydd, y cynhaliwyd oedfa o ddiolchgarwch am ei fywyd ar 14 Hydref. *W J Edwards*

### Cydymdeimlad

Ar ôl ychydig oriau o salwch bu farw'n cyfaill hoff Clayton Cadman, 14 Tregerddan, yn gynnar bore Sadwrn 5 Tachwedd. Daeth Beryl ag yntau i Dregerddan ar ôl priodi 59 o flynyddoedd yn ôl ac yma y ganed Helen a Ken. Gwyddom am fawr ofal Clayton o Beryl a hithau heb fod yn dda ers tro a chydymdeimlwn â hi, ac â Helen a Ken a'u teuluoedd, yn eu chwithdod o golli priod, tad, tad-cu a hen dad-cu mor annwyl.

Cydymdeimlwn â Rhiannon Jones ac Angharad Fflur, Garreg Wen, ar farwolaeth tad Rhiannon - John Gwyn Jones, Cefn Llys, Castell Brychan, Aberystwyth ar Dachwedd 11eg.

### Chwiorydd Capel y Garn

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch blynyddol Chwiorydd Capel y Garn yn y capel ar y 5ed o Hydref. Trefnwydd y gwasanaeth gan ein llywydd, y Parchg Judith Morris, gyda Mrs Liz Lloyd-Jones yn cymryd y rhannau arweiniol a Miss Kathleen Lewis yn cyfeilio. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Judith Morris, Liz Lloyd-Jones, Shân Hayward, Mary Thomas, Gwenan Price, Meinir Roberts a Meinir Lowry. Gwnawd casgliad tuag at Apêl Elain yn ystod y gwasanaeth. Cafwyd te i ddilyn wedi ei baratoi gan aelodau o'r pwyllgor, sef Gwenan Price, Shân Hayward,



Cafwyd ymateb rhagorol unwaith eto i ymgyrch Operation Christmas Child 2011. Rydym yn hynod ddiolchgar i aelodau Capel y Garn, cyfeillion ardal y Tincer, Cartref Tregerddan ac ac Ysgol Sul Capel Seion am yn agos i 60 focsus sgidia llawn a dros 200 o gyfraniadau ariannol. Diolch o galon i chi i gyd am eich haelioni.

Kathleen Lewis, Judith Morris a Meinir Lowry.

Dr Terry Edwards oedd y gŵr gwadd yn ein hail gyfarfod ar Dachwedd yr 21. Ar ôl i'r cadeirydd, Llinos Dafis, agor y cyfarfod arweiniodd Mary Thomas ni mewn defosiwn gan droi ein meddyliau at hanes Dorcas, neu Tabitha. Rhannodd Terry Edwards atgofion difyr am Aberystwyth ei ieuenctid, a llawer ohonom yn hapus iawn i gydgerdded yr hen lwybrau. Merched Llandre fu wrthi'n paratoi'r te y tro hwn, sef Mary Thomas, Marjorie Hughes, Lena Davies, Nans Morgan a Megan Davies. Roedd pawb yn falch clywed bod Shân Hayward, ein hysgrifenyddes yn gwella ar ôl ei thriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Bron-glais.

### Penodiad

Llongyfarchiadau i Rhun Emlyn, Maes Afallen, a benodwyd yn un o chwe darlithydd cyfrwng Cymraeg newydd gan Brifysgol Aberystwyth o dan nawdd Cynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Daw Rhun o Langernyw a dechreuodd ei gysylltiad gyda adran Hanes a Hanes Cymru wyth mlynedd yn ôl pan ddaeth i Brifysgol Aberystwyth fel myfyriwr israddedig. Enillodd Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cyfrwng Cymraeg a chafodd ei benodi yn Gymrawd Dysgu y llynedd dan gynllun Y Ganolfan Datblygu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Mae'n cyfrannu at ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ym maes Hanes yr Oesoedd Canol ac ar fin cwblhau ei ddoethuriaeth.

### Noddfa

Gair i'ch atgoffa mai ar nos Sul 18 Rhagfyr am 5pm y mae oedfa Nadolig ysgol Sul Noddfa eleni, ac mae croeso cynnes i bawb i'w mynychu. Dewch i ymuno gyda'r plant yn adrodd hanes y geni trwy gân a stori.



Plant Noddfa yn ymarfer

### Pen blwydd arbennig

Cyfarchion cynnes i Gwen Lewis, Cartref Tregerddan (gynt o Glasfryn,) fydd yn 100 oed ar Ragfyr 21.

### Dymuniadau gorau

Mae Rhydian Phillips, gynt o Faes Ceiro, wedi cael hyfforddiant trylwyr, ac wedi gwirfoddoli i helpu pobl sydd wedi cael damweiniau at ati, yn ardal Cleve, De Awstralia. Gall gael ei alw allan ddydd neu nos. Da iawn ti Rhydian, a chymer ofal! Mae dy rieni, Alun a Louisa, yn ymfalchïo yn yr hyn rwyt yn ei wneud.

Faint ohonom fyddai'n hoffi cael llun wedi ei dynnu gyda Jamie Roberts, gafodd ei ddewis mewn archwiliad gan y 'Western Mail' wedi ymateb gan filoedd o Gymry, fel arwr di-os cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd 2011 yn Seland Newydd.




Wel, dyma Rhydian Phillips gynt o Faes Ceiro, nôl yn 2008 gyda'r arwr, pan oedd yn chwarae rygbi 7 bob ochr. Neidiodd Rhydian dros y ffens i'r maes ym Melbourne i gyfarfod â'r tîm - (hogie hyfryd yn ôl Rhydian), gan fod tîm Cymru wedi ennill. Llun y bydd Rhydian yn ei drysori mae'n siŵr!

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Cwrdd Diolchgarwch Capel Pen-llwyn

Cynhaliwyd y cwrdd diolch, Nos Wener yr unfed ar hugain o Hydref, pryd y pregethwyd gan Parchedig Andrew Lenny, Aberystwyth. Daeth nifer o aelodau a ffrindiau o Goginan a Llwyn-y-groes ynghyd i ddiolch am fendithion y flwyddyn a chlywed pregeth a oedd yn rymus a phriodol gan y gennad. Addurnwyd y capel yn hyfryd iawn gyda ffrwyth a blodau hardd, wedi eu gosod eleni eto gan Mrs Eirwen Sedgwick, Rheidol House, sydd â dawn arbennig i drefnu a thyfu llawer o'r blodau a ddefnyddiwyd. Diolch i Eirwen am ei gwasanaeth unwaith eto. Cyfrannwyd hefyd gan Mrs Heulwen ac Aeronwy Lewis a Mrs Ann Davies. Diolch arferol i'r organyddes , Miss Delyth Davies, Maencrannog.

## Dymuniadau gorau

Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r rhai hynny sydd wedi derbyn triniaeth feddygol yn ddiweddar. Hyderwn y cewch lwyr iachad yn fuan — Mrs Kath Davies, Mrs Glenys Griffith, Mrs Ann Edwards, ac i Mrs Gwyneth Smart, sydd yn mynd i mewn i'r ysbyty ar yr 20fed o'r mis hwn, dyddiad gwahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf.

## Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Raymond Davies, Ceunant, ar ddathlu 25 o flynyddoedd o fywyd priodasol, ddechrau'r mis hwn. Ble aeth y blynyddoedd dywedwch? Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

## Cyfarchion Pen Blwydd

Cyfarchion hwyr i Mr Barry Jones, Y Felin, sydd wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Joia dy bensiwn Barry!, a phob dymuniad da.

## Dymuniadau gorau

A chroeso yn ôl i Ben-llwyn, i Mr Fred Williams o Troedrhiwgoch, Ponterwyd, sydd wedi byw yno am yr ugain mlynedd ddiwethaf.

## Cerflun Dr Lewis Edwards

Ynglŷn â cherflun Dr Lewis Edwards (gweler Tincer mis Hydref) Mae Mrs Enid Vaughan, Maesawel, yn cofio ei thad y diweddar Mr Eben Hughes yn dweud, am ail "plinth" a osodwyd i'r cerflun, ond dirgelwch o hyd yw paham?
Cafwyd benthyg ganddi adroddiad Capel Pen-llwyn 1922. Mae yn hynod o ddiddorol i'w ddarllen, a dyma baragraff o anerchiad y gweinidog, y Parchg M H Jones.

*"Dengys cyfrifon ariannol yr adroddiad hwn, i'r eglwys fod yn eithriadol lafurus, nid yn unig i gwrdd a gofynion arferol yr achos yn y lle, ond i chwyddo ei chasgliad at y Genhadaeth Dramor, i dalu am baentio'r Festri a gwneud atgyweiriadau yn y Capel, i gynnal Cyfarfod Misol yn Rhagfyr, ac i adnewyddu Cofadail Dr Lewis Edwards, trwy gymorth ac haelioni Syr W Goscombe R. A."*

Hefyd, yn y llyfr, dyma ran o Gyfrif y Trysoryddion am y flwyddyn 1922.

Taliadau

| | £ | s | d |
|---|---|---|---|
| Cludiant Bust Dr Edwards | 1 | 4 | 0 |
| Undeb Dirwestol Ceredigion | 0 | 10 | 0 |
| Traul Ymborth | | | |
| Cyfarfod Misol | 7 | 18 | 0 |
| Man Dreuliau | 0 | 1 | 71/2 |
| Gweddill yn llaw | | | |
| trysorydd weindogaeth | 50 | 13 | 4 |
| trysorydd weindogaeth | | | |
| eisteddleoedd | 0 | 0 | 01/2 |

## Merched y Wawr Melindwr

Dechreuodd y tymor eleni eto ym mis Medi gyda Lis Collison yn llywydd, Llinos Jnes yn ysgrifennydd a Glenys Jones yn Drysorydd. Yn y cyfarfod cyntaf daeth Lloyd Edwards o Benrhyn-coch a nifer o gynnyrch a oedd wedi ennill gwobrau iddo yn y Sioeau dros yr haf. Datguddiodd rhai o'i gyfrinachau i ni a chafwyd noson hwylus iawn yn ei gwmni. Gwnaethwyd y te gan Eirwen Sedgwick a Gwenda Morgan ac mi enillwyd y raffl gan Heulwen Lewis.
Cafwyd cyfarfod tipyn bach yn wahanol ym



Mewn cydwasanaeth Cymun Bendigaid a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch, comisiynwyd Mrs Heather Evans yn Arweinydd Addoli'r Fywoliaeth gan Ddeon Gwlad Llanbadarn, y Parchg John Livingstone. Llun: Hugh Jones

mis Hydref gan i ni fynd ar daith i'r Caban ym Mhontarfynach. Croesawyd ni yno gan Sarah Bunton ac mi fu yn arddangos i ni ffordd y mae yn mynd ati i wneud y siocledau. Mae Sarah a'r teulu yn brysur iawn yn sefydlu y fusnes yma ac mae yn trafaelio'r wlad i wahanol ddigwyddiadau i werthu y cynnyrch. Mae yn waith caled iawn a hyfryd yw gweld merch ifanc yn mentro mewn busnes yng nghefn gwlad. Cawsom swper blasus iawn wedi ei baratoi gan ei rhieni cyn troi am adref.

Decrau mis Tachwedd cawsom noson yng nghwmni Eleri James, Cwmudw, Tal-y-bont. Manteisiodd Eleri y llynedd ar y cyfle i fynd i Seland Newydd o dan faner Clwb Ffermwyr Ifanc. Dangosodd i ni sleidiau hyfryd iawn o'r wlad ac mi 'roedd yn hawdd gweld iddi gael amser da iawn yno. Gwnaethpwyd y te gan Heulwen Lewis a Margaret Dryburgh. Mae nifer o'n haelodau yn sal ar hyn o bryd ac wedi bod yn yr Ysbyty. 'Rydym yn danfon ein cofion cynhesaf atoch a gobeithio y byddwch yn ol gyda ni yn y flwyddyn nesaf.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

## Croeso gartref

Croeso mawr adref i Vivian Morgan, Is- Y-Coed, ar ôl treulio dros ddeufis yn yr Ysbyty. Hyfryd yw ei weld yn mynd o amgylch yr ardal unwaith eto.

## Urdd y Benywod

Nos Lun cafwyd noson yng nghwmni Marji York, y Ddôl. Mae hi a'i gŵr yn gweithio fel osteopath yn y Cambria yn Aberystwyth. Bu yn pwysleisio mor bwysig yw hi i ni edrych ar ôl ein cefnau a bu yn arddangos gwahanol ffyrdd o gadw yn heini gyda help Jill Farthing. Noson ddiddorol ac addysgiadol iawn, Diolchodd Jenny Hall yn gynnes iawn i Marji a gwnaethpwyd y te gan Lorraine Maloney a Sarah Dyer.

## Sioe Capel Bangor a'r Cylch.


Dymuna pwyllgor y Sioe ddiolch i Mr a Mrs P Keegan a'r teulu am ddefnydd o'r cae eleni eto; a diolch am eu cydweithrediad dros y blynyddoedd.

Cynhaliwyd ein Pwyllgor Blynyddol yn y Druid, Goginan, ar nos Fercher gyntaf y mis. Diolchodd y pwyllgor i Iola Evans am ei gwaith fel Cadeirydd dros y 3 mlynedd ddiwethaf, a dymunnwn pob llwyddiant i Andrea Jones wrthi iddi gymryd yr awennau.

Rydym wrthi yn nawr yn trefnu Sioe 2012 ac yn gwahodd aelodau o'r ardal i ymuno â ni gyda syniadau sut i wneud sioe 2012 yn un fwy llwyddiannus eto. Cynhelir ein Pwyllgor nesaf ar nos Fercher 7fed o Rhagfyr yng Nghlwb Golf Capel Bangor. Croeso cynnes i bawb.

## ADOLYGIADAU

*Cerddi Storïol Carreg Gwalch*; golygwyd gan Myrddin ap Dafydd 80t (Gwasg Carreg Gwalch) £6.95




Dw i ddim yn meddwl i fi erioed gael y fath wefr wrth agor llyfr. Casgliad o ugain o storiau ar fydr, neu gerddi dramatig, gan wahanol feirdd, o R. Williams Parry i Gai Toms, sydd yma. Myrddin ap Dafydd fu'n eu casglu a gwahoddwyd nifer o arlunwyr gwahanol i'w darlunio.

Mae'r cerddi i gyd yn rhai Cymraeg gwreiddiol ond yn mynd â ni ledled y byd er hynny, e.e. Gwaed ar yr Eira Gwyn Tecwyn Ifan, sy'n ymdrin yn gynnil â hanes erchyll Goresgyn Gogledd America. Nid cerddi ar gyfer plantos sydd yma, ond cerddi safonol a phob un yn dweud stori werth ei chlywed. O ystyried y beirdd sydd â cherddi yma - R.Williams Parry, Edgar Phillips, Meic Stevens, I D Hooson, Crwys, Myrddin ap Dafydd, T Llew Jones, Gai Toms, Tegwyn Pughe Jones, Gwyn Thomas, Tecwyn Ifan, Gwyneth Glyn, Sarnicol, Iwan Llwyd ac R E Jones — dyw hynny'n ddim syndod.

Rhyngddyn nhw maen nhw'n cynnig ystod o ymwybyddiaeth o lên gwerin a hanes, - Y Tylwyth Teg a'r Gweldig (Crwys), Dychweliad Gruffudd ap Cynan, (Edgar Phillips), Ellis Humphrey Evans (Gai Toms), Dwyn y Tir Comin (Myrddin ap Dafydd), Ddaeth Neb yn Ôl (Meic Stevens) — a hynny gyda darluniadau ardderchog a fydd yn serio'r hanesion yng nghof darllenwyr ifainc a rhai hŷn.

Os oes plant ar restr eich anrhegion Nadolig, dyma'r llyfr i chi. Ac mae e'n fargen am ddim ond £6.95.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Hydref, yn hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd wyth aelod arall yn bresennol ynghyd â'r clerc, a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dai Rees Morgan a Kari Walker.

Nodwyd fod y Cyng. Mel Evans wedi derbyn e-bost gan Mrs Owen, Ffordd Penyberth, yn nodi ei bod yn bwriadu gwneud cais cynllunio am-yn-ôl ar gyfer y garafán ar ei thir. Roedd Huw Davies o Adran Gynllunio Cyngor Ceredigion wedi cadarnhau na ddylai neb fyw yn y garafán yn y cyfamser.

Cadarnhawyd y trefniadau arferol ar gyfer Sul y Cofio. Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid ar 8 Hydref. Cafwyd cyfraniadau diddorol gan wahanol siaradwyr, ond roedd y ddau gynrychiolydd o'r farn y gellid fod wedi cael gwell trefn ar y cyfarfod ac roedd safon y lluniaeth yn siomedig o ystyried fod llawer o'r cynrychiolwyr wedi teithio o bell.

Roedd Gwenan Price wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor ym mhwyllgor Neuadd y Penrhyn, ac roedd y gwaith sy'n cael ei gynllunio i wella'r adeilad wedi cael ei drafod. Cadarnhawyd fod y gwaith ar fin dechrau, ac roedd ariannu'r prosiect mewn llaw. Roedd yr Ysgol Feithrin wedi gofyn am lythyr o gefnogaeth ar gyfer gwneud cais am arian datblygu, a chytunwyd i anfon un.

Adroddwyd fod y palmant rhwng Tan-y-berth a'r Eglwys mewn cyflwr gwael, a gofynnwyd i'r Clerc dynnu sylw y Cyngor Sir at hynny. Yr un modd, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ailosod y rheilen bwyso yn yr arosfan bysiau ger y Post. Hefyd y Clerc i gysylltu â Tai Ceredigion/Cyngor Ceredigion ynglŷn â'r fan sy'n rhwystr ar y palmant ac yn gwneud llanast o'r borfa ger Maes Seilo, ac i dynnu sylw'r Cyngor Sir nad oedd bolards du a gwyn bellach ger Llyn Melindwr.

Roedd yr archwiliad mewnol o lyfrau cyfrifon y Cyngor wedi'i gyflawni gan J Emlyn Watkin, ac roedd wedi cadarnhau fod popeth yn iawn. Byddai'r ffurflenni priodol yn awr yn cael eu hanfon ar gyfer yr archwiliad allanol.

Ceir cofnodion y Cyngor ar www.trefeurig.org.




Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



Plaid Cymru
Ceredigion

**FFAIR CYNNYRCH GWLAD A CHARTREF**

**Canolfan y Morlan, Aberystwyth**
Dydd Sadwrn 3 Rhagfyr 2011,
10.30–2.00

**10.30–11.30** Coffi a mins pei
**12.00–1.30** Cinio cawl a bara
- Stondinau amrywiol
- Gweithgareddau plant
- Raffl Fawr

Croeso cynnes i bawb!



**Gofal Traed Aber**

Ceiropodydd / Podiatrydd
cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol

**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**

Cysylltwch gyda Shân Jones
neu Richard Ellison
ar **01970 617269** am apwyntiad



Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**

# COLOFN MRS JONES

Wel, dyma fi wedi bod ac wedi dod yn ôl o'm gwyliau a gallaf eich sicrhau nad ar y gwastadeddau yn unig y mae hi yn bwrw yn Spaen. Mae yn medru ei thywallt hi ar yr arfordir! Ar wahân i'r ffaith ei bod yn gynhesach na Chymru, digon tebyg oedd y tywydd,tridiau sych,deuddydd glawog a thridiau sych eraill.Yr hyn sydd yn gwneud y tywydd yn wirioneddol wahanol yw nerth y glaw. Roedd adlen y gwesty yn rhidwll o dyllau man gan bwer storm a gafwyd dydd Gwener y gwyliau. Roedd y mellt yn dallu rhywun a'r taranau yn gwneud i wydrau glinddarach a roedd y glaw yn drofannol.

Ond gwlad braf yw Spaen er fod ambell i bentref yn eich atgoffa chi o ffilmiau Mecsicanaidd a dim syndod hynny, wrth gwrs. A ni welais i ddim arwydd o siesta, ychwaith, na phrydau nos a brecwastau hwyr. Yn wir, roedd y gwesty yr arhosem ynddo yn cau am hanner nos ac yn ail agor am saith.Yr oedd yn westy cysurus a'i fwyd yn dda ond yr oedd hefyd yn sidet fel gwesty Agatha Christie, roeddwn i yn hanner disgwyl gweld Miss Marple yn gwenu arnaf yn ei lolfa.

Uchafbwynt y gwyliau i mi oedd ymweliad â hen bentref bach Besalu, pentref a mur gadarn o'i gwmpas a dinas a adeiladwyd ar fryn yn wir. Gwaith blinedig oedd troedio hyd ei balmentydd serth ond, o godi eich llygad i balconiau'r tai, fe welech ryfeddodau, twb patio yn goferu a blodau lliwgar, gargoyle, cath yn magu ei chathod bach yn ddioglyd fodlon a sawl beic. Hyd y gwelaf, prif bwrpas balconi yn Ffrainc a Spaen yw bod yn lle parcio beics.



Gwelais beth arall a'm difyrrodd hyd at gigls yn Figueres, blwch postio gyda choron urddasol ar un ochr ohono - a chlamp o falwen ar yr ochr arall i ddynodi, am wn, mai 'snail mail' ddylid ei roi ynddo. Mae'n siwr fod pobl y lle yn fy ngweld i yn od yn tynnu ei lun dan wenu ond ni ddywedodd neb ddim dim ond gwenu arnaf. Fe hoffais i'r Spaenwyr am eu cwrteisi a'u caredigrwydd, fe fyddaf yn gweld rhyw natur drahaus mewn Eidalwyr a Ffrancwyr ond wrth ddweud hynny, mae'n rhaid i mi gofio na wn beth y mae hwy yn ei ddweud am Gymru!

Ond mae hi yn braf cael dod yn ôl. A mae yna ryfeddodau i'w gweld yng Nghymru,hefyd. Pan ddychwelais i'm tŷ, sylweddolais i mi wneud peth gwirion, sef peidio a gofalu bod gennyf fara a llefrith yn y tŷ. Ond cofiais bod un o siopau Spar Aberystwyth ar agor ymhell wedi deg o'r gloch, felly, i lawr a mi. Roedd mynd i'r siop fel mynd i fyd arall,roedd yn orlawn o fyfyrwyr a'r rheini i gyd wedi eu gwisgo fel cymeriadau ffilmiau arswyd, dyna pryd y cofiais ei bod hi yn 30 Hydref. Ar eu ffordd i barti yr oedd yr ysbrydion a'r fampiriau a mae'n siwr eu bod yn tosturio yn edn wrth hen wraig ddibarti oedd yn prynu bara a llefrith a choffi.

A buan iawn y mae rhywun yn setlo yn ôl i'w rwtin ei hunan, unwaith y daeth Buster yn ôl o'i wyliau ef a minnau fynd yn ôl i'm gwaith, roedd hi yn amlwg fod diwedd y gwyliau wedi dod. Ond fe ddaw'r Nadolig gyda hyn ac y mae gennyf innau dros wythnos o wyliau yn weddill. Fodd bynng, nid af dramor, fe'u treuliaf yn ymweld â theulu ac yn teithio yng Nghymru. A phwy ŵyr, efallai y bydd yn eira hyd at dor a neb yn medru mynd i unman. O leiaf, ni rwystrodd mellt a tharanau neb rhag teithio erioed.

# O'R CYNULLIAD



Roedd Hydref yn fis prysur gyda gwahanol bynciau o bwys i Geredigion yn cael eu trafod yn y Senedd, a nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar hyd a lled y sir.

Un o'r materion pwysicaf a godais yn y Senedd oedd yr angen i fyrddau iechyd ymgynghori'n onest a'n dryloyw gyda phobl ar unrhyw gynlluniau i newid y ddarpariaeth iechyd presennol. Roedd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, yn cytuno â mi bod angen sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth iechyd yn cael gwybod y ffeithiau i gyd am unrhyw newidiadau, a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn ar y cynlluniau.

Mae disgwyl i Fwrdd Iechyd Hywel Dda gyhoeddi cyn hir sut maent yn rhagweld y bydd gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu dros y blynyddoedd nesaf — byddaf yn cadw llygad barcud arnynt i sicrhau bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ac nad ydynt yn celu unrhyw wybodaeth o'r cyhoedd.

Fe fynychais nifer o ddigwyddiadau yng Ngheredigion yn ystod y mis diwethaf hefyd. Ar ddechrau'r mis, cefais y fraint o annerch trigolion Maes Mwldan — y fflatiau gofal ychwanegol yn Aberteifi — ynghylch fy ngwaith fel yr Aelod Cynulliad lleol. Cefais amser da yn sgwrsio ac ateb cwestiynau yno, ac rwy'n gobeithio iddynt hwythau fwynhau hefyd.

Yn Aberaeron, cefais yr anrhydedd o agor Swyddfa Treftadaeth newydd y dref, sy'n rhan o brosiect uchelgeisiol a drefnir gan y gymdeithas dreftadaeth leol. Gwnes hefyd gwrdd gyda'r gwirfoddolwyr sy'n cynnal y gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad yn y sir, gan fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu gwaith caled sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl ar draws Ceredigion.

Roeddwn yn falch i fynychu un o'r cyngherddau a drefnwyd yn Theatr Felin-fach i ddathlu pen blwydd CFfI Ceredigion yn 70 oed. Mae'r ffermwyr ifanc yn cyfrannu cymaint at fywyd cymdeithasol y sir, ac roedd hi'n braf gweld o gefnogwyr wedi dod allan i ddathlu gyda nhw. Hoffwn ddymuno'n dda i'r ffermwyr ifanc am y 70 mlynedd nesaf ac edrychaf ymlaen at fynychu eu digwyddiad nesaf yn y dyfodol agos.

Mae dyfodol ein gwasanaethau iechyd yn parhau yn un o'm blaenoriaethau ac roeddwn yn siomedig iawn i glywed bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu lleihau'r nifer o welau sydd ar gael yn Ysbyty Cymunedol Tregaron o 14 i 12. Fe gwrddais i a'r Cynghorydd Catherine Hughes yn syth gyda chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd i drafod y cam hwn, ac mae'n amlwg mai pwysau staffio a chyllido sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Gwraidd hyn oll, wrth gwrs, yw'r lleihad mewn gwariant cyhoeddus sydd wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU ac mae'n debyg y byddwn yn gweld toriadau eraill i'n gwasanaethau cyhoeddus dros y misoedd nesaf.

Rwy'n siwr y bydd nifer o ddarllenwyr selog y golofn hon yn ymwybodol fy mod wedi bod yn ymgyrchu dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau gwell cysylltiadau â'r rhyngrwyd band-eang i drigolion Ceredigion. Ychydig wythnosau yn ôl, fe fynychais ddigwyddiad yn Llanbedr Pont Steffan oedd wedi ei drefnu gan Gyngor Sir Ceredigion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r ardaloedd sydd dal yn methu derbyn cysylltiad band-eang, neu sy'n derbyn cysylltiad araf iawn ar hyn o bryd.

Roedd hi'n dda gweld nifer o gwmnioedd amrywiol yn bresennol i esbonio sut y gall eu gwasanaethau ateb y broblem, ac rwy'n gobeithio bod y trigolion lleol oedd yn bresennol wedi dysgu mwy am y posibilrwydd o dderbyn band eang trwy loeren a thrwy'r rhwydwaith o fastiau ffonau symudol. Mae'r Cynllun Cymorth Band-eang sy'n cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru'n medru helpu'r cartrefi a'r busnesau sydd heb gysylltiad band-eang digonol, ac mae croeso i chi gysylltu â'm swyddfa ar 01970 624 516 os am fwy o fanylion ynghylch y cynllun.

Eleni, fe fynychais wasanaeth Sul y Cofio yn Aberteifi ac roedd yn dda gweld cymaint o bobl y dref wedi dod at ei gilydd unwaith eto i osod y torchau ger y gofadail. Yn ychwanegol, y diwrnod cynt, fe gefais y pleser o agor ffair Ysgol Gyfun Pen-glais, Aberystwyth, ac roeddwn yn falch i weld criw da wedi dod ynghyd i gefnogi'r ysgol a'r gweithgareddau codi arian.

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Calendr

Eleni, bydd yr ysgol yn gwerthu calendrau arbennig. Bu'r Cyngor Ysgol wrthi yn trafod syniadau amrywiol ac erbyn hyn, gwelir calendr arbennig wedi ei gyhoeddi. Gwelir plant yr ysgol yn y calendr o dan fisoedd eu pen blwyddi. Ceir thema arbennig i bob mis. Os hoffech ei weld, mae copïau ar werth yn yr ysgol am £6. Diolch i'r holl gwmnïau a fu'n barod i noddi'r calendr. Llongyfarchiadau i'r Cyngor Ysgol am y syniad a diolch i Miss Cory am ei holl waith caled a'i hamynedd!

### Cyngherddau Nadolig

Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol ar dair noson eleni! Bydd yr ysgol yn cyflwyno dwy sioe — un i'r plant iau a'r llall i'r plant hŷn. Bydd y perfformiadau ar nos Fawrth, nos Fercher a nos Iau y 6ed, 7fed a'r 8fed o Ragfyr. Bydd tocynnau ar gael o'r ysgol ar ddechrau y mis. Byddwn yn cyflwyno perfformiad arbennig i henoed Penrhyn-coch ar brynhawn dydd Mawrth y 6ed o Ragfyr am 1-30 p.m. Croeso i bawb.

### Cartref Tregerddan

Aeth criw bychan o ddisgyblion yr ysgol draw i Gartref Tregerddan cyn gwyliau hanner tymor. Treuliwyd y cyfnod yn diddanu'r henoed ac yn sgwrsio â hwy. Cyn yr ymweliad, casglwyd losin gan y disgyblion a chyflwynwyd y rhain i'r trigolion yn ystod yr ymweliad. Diolch am y croeso a gafwyd yno.

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol. Aeth pob dosbarth ati i baratoi eitemau a darlleniadau. Gwelwyd pob disgybl yn cael cyfle i ddweud darnau. Diolch i bawb a ddaeth a losin i'w cyflwyno i drigolion Cartref Tregerddan.

### Gwasanaethau brys

Croesawyd Karen Roberts o'r gwasanaeth Tân a PC Hefin Jones o'r Heddlu i'r ysgol. Buont yn sgwrsio gyda'r disgyblion am faterion yn ymwneud â thân a thor cyfraith. Cafwyd cyfle i wylio DVD ac i drafod canlyniadau gweithrediadau. Diolch i'r ddau ohonynt am ddod atom ac am wneud y sgyrsiau yn ddiddorol i'r disgyblion. Buont yn sbardun i nifer o drafodaethau!

### Trawsgwlad

Aeth holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i lawr i gaeau'r Ficerdy yn Aberystwyth i gymryd rhan yng nghystadleuaeth trawsgwlad y Cylch. Cafwyd wyth ras yn ystod y prynhawn o flwyddyn 3 i flwyddyn 6. Ym mhob ras, bu dros 70 o redwyr yn ceisio cyrraedd y 10 uchaf er mwyn symud ymlaen i bencampwriaethau Ceredigion. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gyrraedd y nod:-

Llion Edwards — Bechgyn blwyddyn 3
Rhys James — Bechgyn blwyddyn 4
Owain Wilson — Bechgyn blwyddyn 6.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y rasys a phob lwc i'r tri uchod yn y rownd nesaf yn y flwyddyn newydd.

### Rhydypennau

Teithiodd tîmau pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol i Ysgol Rhydypennau i chwarae gêmau cyfeillgar. Cafwyd llawer o hwyl a gêmau cystadleuol. Diolch i Ysgol Rhydypennau am y croeso a gafwyd ganddynt. Edrychwn ymlaen at eu croesawu yn ôl yn y dyfodol.

### Gwisgo Coch

Er mwyn dangos ein cefnogaeth i dîm rygbi Cymru yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd, bu'r disgyblion (a'r staff) yn gwisgo crysau coch. Gwelwyd nifer dda iawn yn eu coch a chafwyd syrpreis yn ystod gêm Cymru ac Awstralia pan welwyd Cemlyn Davies ynghyd â chamerau y BBC yn cyrraedd i'w ffilmio. Gwelwyd y disgyblion ar fwletin newyddion y noson honno. Diolch am ddod atom a thrueni na fyddem wedi llwyddo i ennill!!


### Sbri di ri

Aeth y Cyfnod Sylfaen i gyd i lawr i Ysgol Plas-crug i wylio sioe Sbri di ri. Bu'r plant yn mwynhau wrthi yn canu ac yn cymryd rhan yn y sioe.

### Stondin Gacennau

Cynhelir stondin gacennau yn yr ysgol ar ddydd Gwener yr 16eg o Ragfyr. Bydd y stondin am 3 p.m. Mae croeso i bawb i ddod ati i brynu.

COFIWCH GYSYLLTU
ytincer@
googlemail.com

Lluniau i'w mwynhau Darluniau Gwreiddiol
OrielWynMel

07968 111 757
lluniau@orielwynmel.co.uk www.orielwynmel.co.uk
Llanfihangel Genau'r Glyn SY24 5BZ

## Perfformio Aberystwyth

Nos Sadwrn, **Tachwedd 26**, fe fydd 'na gyfle unigryw i glywed Côr ABC yn canu gwaith newydd sbon sy'n gysylltiedig ag Aberystwyth. Mae'r gwaith wedi cael ei gyfansoddi gan Héctor Mac Donald o'r Wladfa a'r geiriau gan nifer o feirdd lleol gan gynnwys y prifeirdd Dafydd Pritchard, Gwenallt Llwyd Ifan, Huw Meirion Edwards a Hywel Griffiths, Arwel Rocet Jones, Eurig Salisbury, Iwan Bryn James a Lisa Tiplady. Os am noson o wir fwynhad, dewch yn llu i'r Morlan — y noson i ddechrau am 7.30 a'r elw i'w rannu rhwng cronfa ymchwil cansyr y fron ac addysg Gymraeg yn Y Wladfa. Y tocynnau yn £12 ( I gynnwys gwydraid o win, mins pei a rhaglen!) ac i'w cael gan Gwennan Williams — **07530 513196** (symudol) neu **gwennanwilliams@googlemail.com**

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans @btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# YSGOL CRAIG YR WYLFA





### Trawsgwlad

Bu plant dosbarth Mr Leggett yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar brynhawn Hydref 10fed ar Gaeau'r Ficerdy yn Aberystwyth. Rhedodd y plant yn wych a chafwyd prynhawn braf o gystadlu mewn ysbryd da.

### Cinio i'r Gymuned

Cynhaliwyd 'Cinio i'r Gymuned' yn ddiweddar yn Ysgol Craig yr Wylfa. Mae'r cinio'n fenter sy'n rhoi croeso i henoed y gymuned ymuno â staff a phlant yr ysgol er mwyn rhannu cinio, cael clonc a chyfle i gwrdd yn anffurfiol. Bu'r cinio yn llwyddiant ysgubol ac yn gyfle dysgu arbennig i'r disgyblion wrth iddynt holi'r gwestai ynglŷn â'u profiadau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sef testun hanes y plant y tymor hwn.



### Gweithdai Drama

Diolch o galon i Mari Turner o Gwmni Theatr Arad Goch sydd wedi bod yn gweithio gyda disgyblion dosbarth Mr Leggett mewn gweithdai drama sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith Gymraeg y disgyblion.

### Cwrdd diolchgarwch

Dathlwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol ar brynhawn dydd Mawrth, Hydref 18fed yn Eglwys St. Matthew, y Borth. Cafwyd perfformiad graenus gan y disgyblion gan gynnwys canu ac adrodd hyderus. Roedd neges y plant yn gryf i'r gynulleidfa, a hynny oedd cofio pa mor bwysig ydyw i ni i ddweud "Diolch". Diolch yn fawr iawn i'r Ficer, y Parchg Cecilia Charles am ei chyfraniad a'i chefnogaeth, i Joy Cook am fod mor barod i ddarllen ac i Mr Leggett oedd yn canu'r organ.

### Ymweliad

Diolch i Karen Rees Roberts, Swyddog Tân o gangen Brigad Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru am ymweld â'r disgyblion yn nosbarth Mrs Edwards a Mr Leggett yn ddiweddar. Fe wnaeth y plant ymateb yn arbennig o dda a throsglwyddwyd negeseuon pwysig tu hwnt i'r plant a'r staff ynglŷn â diogelwch tân.

### Opera

Llongyfarchiadau i blant Cyfnod Allweddol 2 wnaeth berfformio gydag Opera Canolbarth Cymru yn eu cynhyrchiad o opera Benjamin Britten, Noye's Fludde yng Nghanolfan y Celfyddydau.

### Lansio Apêl

Lansiwyd Apêl Pabi Coch y Borth yn Ysgol Craig yr Wylfa ar fore oer, Tachwedd 3ydd gydag aelodau'r Lleng Brenhinol Prydeinig, y Cynghorydd Ray Quant, y Parchedig David Williams, plant, staff a chefnogwyr yr ysgol.

### Sioe Gerdd

Bu'r disgyblion yn ymweld â Ysgol Pen-glais fore'r 3ydd o Dachwedd i wylio cynhyrchiad yr ysgol o'r sioe gerdd enwog 'The Wizard of Oz'. Diolch yn fawr iawn i Ysgol Pen-glais am y gwahoddiad ac am y croeso cynnes. Roedd y sioe yn ardderchog ac yn sicr fe wnaeth pawb fwynhau mas draw.

### Prysurdeb

Mae disgyblion yr ysgol wedi bod yn brysur yn diddanu trigolion yr ardal yn ddiweddar. Buodd y plant yn ymweld â Chymdeithas Henoed y Borth ar brynhawn 3ydd Tachwedd yn Neuadd y Pentref. Hefyd, bu'r plant yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Sul y Cofio yn y Neuadd Bentref, noswaith y 6ed o Dachwedd.

# YSGOL PEN-LLWYN



### Gwasanaeth Diolchgarwch

Braf oedd gweld tyrfa dda wedi dod ynghyd i'n gwasanaeth diolchgarwch a gynhaliwyd ar y prynhawn olaf cyn gwyliau hanner tymor. Thema y gwasanaeth oedd y bwrdd bwyta'n iach. Fe gymerodd pob plentyn ran yn y gwasanaeth. Fe cafwyd gyfle i flasu poten bwmpen a oedd Cathy wedi ei baratoi. Fe gafwyd casgliad ar ddiwedd y gwasaneth tuag at Ymddiredolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn gan fod y plant wedi cymryd diddordeb mawr yn anturiaethau'r gweilch a ymfudodd o Ynys-hir i Orllewin Affrica yn ddiweddar.

### Pêl-droed

Rhaid llongyfarch rhai o'r plant a gystadlodd yn frwd mewn gêm pêl-droed yn erbyn Padarn Sant cyn gorfod dychwelyd, newid yn gyflym a chymryd rhan yn y gwasanaeth diolchgarwch.

### Castell Henllys

Wedi astudio'r Celtiaid yn ddiweddar fe fwynhaodd Dosbarth 2 fynd am drip i Gastell Henllys yn Sir Benfro i ddysgu mwy am fywyd pob dydd mewn bryngaer. Heb os nac onibai roedd y tywydd oer wedi rhoi syniad go dda i'r plant o beth o'r hyn roedd y trigolion yn teimlo ar ddiwrnod Gaeafol yn y bryngaer. Roedd yn braf cael gwneud ychydig o bobi bara ac yna cadw'n gynnes trwy daflu gwaywffon at fochyn baedd (llun yn unig!) Roedd sgiliau adeiladu rhai o'r plant yn dda hefyd wrth iddynt ddefnyddio coed cyll i adeiladu wal i dy crwn arall. Roedd yr ymweliad wedi rhoi profiad cyfoethog i bawb a ddaeth a'n astudiaeth yn y dosbarth yn fyw o flaen ein llygaid.

### Ysgol Feithrin

Braf oedd croesawu plant o'r ysgol feithrin

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Diolchgarwch

Ar ddydd Mercher y 19eg o Hydref, cynhaliwyd cyngerdd Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Yn dilyn y traddodiad, rhoddwyd croeso i henoed yr ardal a thrigolion y gymuned. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus o flynyddoedd 1 i 6 ac yn dilyn y perfformiad, cafodd yr henoed gyfle i sgwrsio am y perfformiad dros wledd arall, sef te hynod o flasus wedi ei baratoi gan staff y gegin. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd ein casgliad Diolchgarwch i Lisa Hughes, cynrychiolydd ein helusen eleni sef 'Ambiwlans Awyr Cymru'. Casglwyd dros ddau gant o bunnoedd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Adran yr Urdd

Cynhaliwyd Noson Calan Gaeaf Adran Yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd aelodau'r Urdd gyfle i wisgo gwisg ffansi a mwynhau ychydig o hwyl a sbri'r noson arbennig hon. Cafodd nifer o blant wobrau hael a chytunodd pawb fod y noson wedi bod yn un ddifyr iawn.

## Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar ddydd Gwener 7fed o Hydref ar gaeau'r Ficerdy. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 60 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:
Lydia Powell bl 3 (4ydd); Griff Lewis bl 3 (2il); Jamie Whitney bl 3 (9ed); Sian Duckett bl 4 (6ed); Jac Griffiths bl 4 (9ed) Tomos Lyons bl 4 (10ed); Catrin Manley bl 5 (5ed); Megan Jackson bl 6 (4ydd).
Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion yn y flwyddyn newydd. Pob Hwyl iddynt!

## Dyfeisio a Darganfod

Ar yr 2il a'r 3ydd o Dachwedd cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XL Wales. Cafodd pob plentyn o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 gyfleuon i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau. Ac, fel arfer, roedd gweithgareddau Mr Collins yn arbennig o dda.

## Arad Goch

Cafwyd ymweliad arall gan Gwmni Arad Goch yn ddiweddar. Y testun y tro hwn oedd cynhyrchiad o'r enw 'Ar eich Marciau'. Perfformiad newydd sbon oedd hon am ferch yn rhedeg, rasio, ymdrechu a phoeni am fethu. Stori am hunan-hyder, am ddyfalbarhad, gorchest a llwyddiant. Fel arfer cafwyd perfformiad proffesiynol a graenus iawn gan y cwmni.

## T.Llew Jones

Ers marwolaeth T.Llew Jones ym mis Ionawr 2009 sefydlwyd diwrnod arbennig i gofio am yr awdur enwog. Ar ei ben blwydd, yr 11eg o Hydref, bu'r plant yn mwynhau gwrando ar ei farddoniaeth a rhai o'i storïau enwog ac yn hyn o beth, cofio am Frenin llenyddiaeth plant Cymru.

## Mynd am Dro

Fe aeth y dosbarth Meithrin a'r Derbyn ar daith yn y bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd y goedwig wrth ymyl



Dyfeisio a Darganfod

Gogerddan. Wrth fynd am dro drwy'r coed, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Enillwyr noson calan gaeaf



Plant y Meithrin a'r Derbyn yn y goedwig



Cyflwyno Siec i Ambiwlans Awyr Cymru

atom am fore cyn hanner tymor. Fe gawsom wasanaeth gyda'n gilydd a chafodd plant yr ysgol feithrin gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Fe fwynhaodd pawb yn yr ysgol yr helfa drysor ar ddiwedd y bore. Diolch i Mrs Parr-Davies a Miss Williams am baratoi yn drylwyr.

## Cymdeithas Rhieni Athrawon

Fe gynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar 17eg Hydref. Roedd yn gyfle i ddiolch i'r pwyllgor am eu gwaith arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae yna si ar led fod yna nifer o bethau cyffrous wedi eu cynllunio ar gyfer ein Ffair Nadolig ar Nos Iau 8fed o Ragfyr yn yr ysgol. Diolch eto i'r pwyllgor am ei ymroddiad a chefnogaeth.

## Seren Michelin yng Nghapel Bangor?

Os oes gennych blentyn yn nosbarth 2 yna mi fydd gwahoddiad yn dod atoch cyn bo hir i flasu pryd wedi ei baratoi gan y plant. Fel rhan o'n gwaith yn nhechnoleg gwybodaeth mae'r plant wedi bod yn cynllunio pryd iachus i'w goginio gyda help Cathy ein cogyddes. Rydym yn gobeithio gwneud ychydig o elw o'r fenter ac mi fydd yn datblygu sgiliau rhifedd y plant hefyd. Yr ydym i gyd yn edrych ymlaen at ddarganfod beth yn union yw 'lasagne tu fewn tu mas!'

## Arweinwyr Ifanc

Pob dydd Gwener mae gweithgareddau ar gyfer y plant lleiaf yn cael eu trefnu gan y plant hynaf ar yr iard amser chwarae. Mae Alaw, Laura a Haf wedi dangos sgiliau arweinyddiaeth arbennig hyd yn hyn. Mae'n amlwg fod y plant lleiaf wedi mwynhau hefyd. Mae cwpanau a soseri wedi bod yn ffefryn hyd yn hyn.





# TASG Y TINCER

Ddaru chi fwynhau'r noson tân gwyllt? Mi fues i i Gae Piod, Bow Street, i wylio'r sioe. Rwy wrth fy modd efo'r sŵn 'bang' a 'crac' wrth i'r tân gwyllt saethu'n uchel a sgrialu drwy'r awyr, cyn ffrwydro'n lliwgar fel cawod o sêr!

Wel, daeth pentwr mawr o luniau o'r wrach fach trwy'r drws, o'r dasg y mis diwethaf. Diolch i bawb fu'n lliwio. Dyma chi:

Elen Morgan, Llys Awel, Bow Street; Elin Gore, Troedrhiwgwynau, Comins-coch; Cadi Bowen Jones, Cwm Pennant, Penrhyn-coch; Mirain Gregory, Y Deri, Llwyn Afallon, Aberystwyth; Elin Pierce Williams, 46 Bryncastell, Bow Street; Eleri Griffiths, Gwyn Garreg, Y Borth; Dylan Jenkins, Cwm Ywen, Penrhyn-coch; Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch; Myfanwy Roberts, 4 Maes Seilo, Penrhyn-coch; Griff Lewis, 11 Broncynfelin, Llangorwen; Mackenzie Byrne, Ysbryd y Gors, Y Borth; Garan Rhys ac Ela Glain Ebenezer Thomas, Llandaf, Caerdydd.




Cadi Bowen Jones

Roedd yn anodd iawn iawn dewis enillydd — roeddwn i'n hoffi'r lluniau i gyd ac roeddech wedi cael hwyl ar y lliwio, felly, y tro hwn, aeth yr enwau i mewn i het fawr, a'r enw cyntaf allan o'r het oedd **Cadi** o Benrhyn-coch. Llongyfarchiadau, Cadi!

Bydd tymor yr **Adfent** yn cychwyn ar ddydd Sul olaf Tachwedd ac yn gorffen ar noswyl Nadolig. Mae rhai yn dathlu'r Adfent trwy greu cylch neu dorch o ddail gwyrdd â phedair cannwyll ynddo, ac mae'r canhwyllau'n cael eu cynnau yn eu tro yn ystod mis Rhagfyr, gydag un gannwyll arbennig, cannwyll Iesu Grist, yn cael ei chynnau ar ddydd Nadolig, am fod Iesu wedi ei eni, a goleuni'r byd wedi cyrraedd! 'Falle bod gan rai ohonoch chi galendr Adfent — rwy'n hoffi chwilio am y rhifau ar y ffenestri bach bob dydd, ac yn arbennig o hoff o'r rhai sydd â siocledi. Ydech chi wedi cael calendr Adfent eto?

Y mis hwn, beth am liwio'r torch Adfent? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Rhagfyr 1af. Ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed Rhif ffôn


MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 343 | TACHWEDD 2011